**Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth MWR 02-03 (agd)**

**AGENDA**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener 14 Mawrth 2003 |
| **Amser:** | 10.30am tan 13.15pm |
| **Lleoliad:** | Gwesty'r Royal Ship, Sgwâr Eldon, Dolgellau |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion, datganiadau o fuddiant a gohebiaeth** (10.30 tan 10.35am)

**Eitem 2:** Cyflwyniad ar faterion sy'n cael effaith ar Dwristiaeth Werdd (10.35am tan 11.10am)

Bydd Mark Roberts, Rheolwr Ardal, Adran Gynllunio a Datblygu Economaidd Cyngor Gwynedd yn rhoi cyflwyniad ar gynaliadwyedd a thwristiaeth werdd, sut i wneud defnydd gwell o'r adnoddau sydd ar gael a'u cynnal ar gyfer y dyfodol.

| | |
|---|---|
| **Papurau:** | MWR 02-03 (p 1) |
| **Cyflwynwyr:** | Mark Roberts, Rheolwr Ardal, Adran Gynllunio a Datblygu Economaidd, Cyngor Gwynedd |

Eitem 3: Blaenoriaethau o ran Ffyniant y Canolbarth yn y dyfodol (11.10am tan 11.45am)

Rhoddir cyflwyniad gan Howard Wright o TUC Canolbarth Cymru ar y blaenoriaethau o ran ffyniant y Canolbarth yn y dyfodol

| | |
|---|---|
| **Papurau:** | MWR 02-03 (p 2) |
| **Cyflwynwyr:** | Howard Wright, Trefnydd Diwydiannol Rhanbarthol (TGWU) |

*Bydd egwyl o15 munud am 11:45*

**Eitem 4:** Cyflwyniad ar brosiect ynni adnewyddadwy yn Chwarel Lechi Llechwedd (12 tan 12.35 pm)

Rhoddir cyflwyniad gan Peter Marston ar ddefnyddio ynni gwynt yn ystod oriau llai prysur i bwmpio a chadw ynni tan y bydd ei angen ar y cwsmer. Mae cynllun ar y gweill i ddatblygu fferm wynt wedi'i chyfuno â gorsaf bwer i storio ynni wedi'i bwmpio yn Chwarel Llechwedd.

| | |
|---|---|
| **Papurau:** | MWR 02-03 (p 3) |
| **Cyflwynwyr:** | Peter Marston, Ymgynghorydd i JW Greaves a'i Feibion Cyf, Blaenau Ffestiniog. |

**Eitem 5:** Cyflwyniad ar ynni adnewyddadwy gan y Comisiwn Coedwigaeth (12.35pm tan 13.05pm)

Rhoddir cyflwyniad gan Jon Westlake ar danwydd coed a'r cyfle i wresogi ac adfywio.

| | |
|---|---|
| **Papurau:** | MWR 02-03 (p 4) |
| **Cyflwynwyr:** | Jon Westlake, Rheolwr Gweithrediadau, Y Comisiwn Coedwigaeth, Aberystwyth. |

**Eitem 6: Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth (13.05pm - 13.10pm)**

Y Pwyllgor i nodi ei Adroddiad Cynnydd Blynyddol ar gyfer 2002-2003.

**Papurau:** MWR 02-03 (p 5)

**Eitem 7:** Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2002 (13.10am tan 13.15pm)

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr.

**Papurau:** MWR 01-03 (mins)

**Bydd lluniaeth ar gael cyn y cyfarfod ac yn ystod yr egwyl.**

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

**Chwefror 2003**